# DIM YMGYSYLLTU Â'R WEITHDREFN ASTUDIO (MYFYRWYR A ADDYSGIR AC YMCHWIL) - DIM YMGYSYLLTU AR RAN Y MYFYRIWR)

# CYNNWYS

Cyflwyniad ........................................ 3

Gweithdrefn ........................................ 3

Camau a fydd yn dilyn ........................................ 3

Gwneud Cais am Adolygiad ........................................ 4

Siart llif ........................................ 5

## 1. Cyflwyniad

1.1. Fel myfyriwr mae disgwyl i chi ymgysylltu'n llawn â'ch astudiaethau a chymuned y Brifysgol, a dangos hyn yn unol â'r Rheoliadau Presenoldeb ac Ymgysylltiad Myfyrwyr.

1.2. Mewn amgylchiadau lle nad ydych yn dangos ymgysylltiad â'ch astudiaethau, bydd y Brifysgol yn cymryd y camau a nodir isod.

1.3. Os ydych chi'n fyfyriwr anabl ac angen addasiadau i'r weithdrefn hon i allu ymgysylltu'n llawn â'r broses, cysylltwch â Phennaeth y Gofrestrfa i drafod unrhyw addasiadau rhesymol y gellid eu gwneud i'ch helpu i ymgysylltu.

## 2. Gweithdrefn

2.1. Bernir nad oes ymgysylltiad pan:

- Nad ydych wedi cwblhau'r broses gofrestru ar gyfer eich rhaglen astudio;
- Rydych wedi cofrestru ond heb gasglu eich cerdyn myfyrwyr (ac eithrio myfyrwyr ar raglen dysgu o bell ddynodedig);
- Rydych wedi cofrestru ond heb gadarnhau manylion eich rhaglen (gan gynnwys y dewis o fodiwlau pan yn briodol) o fewn 14 diwrnod ar ôl dechrau astudio;
- Nid ydych wedi cyflawni isafswm y pwyntiau ymgysylltu disgwyliedig ar gyfer eich rhaglen;
- Rydych yn absennol am fwy na 14 diwrnod (myfyrwyr a addysgir) neu 28 diwrnod (myfyrwyr ymchwil) ac nid ydych wedi gwneud cais i ohirio eich astudiaethau.

## 3. Camau a fydd yn dilyn

3.1. Os nad ydych wedi cwblhau'r broses gofrestru ar-lein neu heb gasglu eich cerdyn myfyrwyr, bydd y Cofrestrydd Academaidd yn eich atgoffa drwy e-bost i wneud hynny. Cewch eich hysbysu hefyd os nad ydych yn cwblhau'r broses gofrestru neu'n casglu eich cerdyn myfyrwyr y gallai hynny arwain at waharddiad dros dro neu barhaol o'r Brifysgol.

3.2. Os ydych chi wedi cofrestru ond heb gadarnhau manylion eich rhaglen, byddwch yn cael eich atgoffa drwy e-bost i wneud hynny. Efallai y cewch eich gwahodd i gwrdd ag aelod o staff yr Ysgol i drafod cadarnhau eich rhaglen a/neu fanylion modiwlau, neu os ydych yn dymuno gohirio neu roi'r gorau i'ch astudiaethau. Byddwch yn cael eich hysbysu hefyd os na fyddwch yn cwblhau'r broses gofrestru, y gallai hyn arwain at waharddiad dros dro neu barhaol o'r Brifysgol.

3.3. Os na fyddwch yn ymateb i'r cais i gwblhau'r broses gofrestru gan gynnwys cadarnhau eich rhaglen astudio o fewn 7 diwrnod ar ôl cysylltu â chi, gall y Cofrestrydd Academaidd neu Bennaeth yr Ysgol eich gwahardd dros dro neu'n barhaol o'ch rhaglen.

3.4. Os nad ydych, fel myfyriwr a addysgir, yn dangos ymgysylltiad drwy gyflawni'r pwyntiau ymgysylltu disgwyliedig a bod hynny'n achos pryder i'r Brifysgol, bydd Pennaeth yr Ysgol neu eu henwebai yn cysylltu â chi drwy e-bost a gallwch gael eich gwahodd i gwrdd ag aelod o staff yr Ysgol. Bydd y cyfarfod yn trafod lefel eich ymgysylltiad a bydd yn gyfle i chi i egluro pam nad ydych yn ymgysylltu. Cewch gyngor ar y cymorth sydd ar gael ac i feddwl a ydych chi am barhau â'ch astudiaethau, gohirio eich astudiaethau, neu roi'r gorau i'ch astudiaethau. Cewch eich hysbysu hefyd y gall parhau i beidio ymgysylltu arwain at waharddiad dros dro neu barhaol o'r Brifysgol.

3.5. Os nad ydych, fel myfyriwr ymchwil, yn dangos ymgysylltiad digonol â'ch rhaglen, bydd eich Cyfarwyddwr Ymchwil Ôl-raddedig yn cysylltu â chi ar ran eich Pennaeth Ysgol a byddwch yn cael eich gwahodd i gyfarfod. Bydd y cyfarfod yn trafod lefel eich ymgysylltiad ac yn penderfynu ar ganlyniad, yn unol â'r Polisi a Gweithdrefn ynghylch Cynnydd neu Ymgysylltiad Anfoddhaol (Myfyrwyr Ymchwil).

3.6. Os na fyddwch yn cydymffurfio â chais y Cofrestrydd Academaidd neu Bennaeth yr Ysgol, byddwch yn cael eich gwahardd dros dro neu'n barhaol yn ddibynnol ar amgylchiadau eich achos. Cewch eich hysbysu o'r penderfyniad hwn drwy e-bost.

3.7. Bydd holl dimau perthnasol y Brifysgol, cyrff cyllido, noddwyr, a chyrff allanol (gan gynnwys UKVI a Chynghorau Ymchwil fel fydd yn briodol) yn cael eu hysbysu o'r newid yn statws eich cofrestriad.

## 4. Gwneud Cais am Adolygiad

4.1. Os ydych chi'n credu eich bod wedi eich gwahardd ar gam neu os oes gennych wybodaeth nad oeddech yn gallu ei chyflwyno i'r Cofrestrydd Academaidd neu'r Pennaeth Ysgol ar adeg eich gwaharddiad, mae gennych yr hawl i herio'r penderfyniad o dan Weithdrefn Adolygu'r Brifysgol .

## 5. Siart llif

Os gwelwyd fod problem gyda'ch cofrestriad/ymgysylltiad, byddwch yn cael e-bost i gwblhau'r broses gofrestru neu'r cam sydd heb ei gwblhau, ac efallai y byddwch yn cael ei gwahodd i gyfarfod Ysgol.

↓

Os bydd y mater wedi'i ddatrys neu os byddwch yn mynd i gyfarfod Ysgol a bod y mater wedi'i ddatrys, yna ni fydd angen cymryd camau pellach.

**NEU**

↓

Ar ôl **7 diwrnod yn olynol** byddwch yn cael eich gwahardd dros dro neu'n barhaol yn ôl disgresiwn Pennaeth eich Ysgol neu'r Cofrestrydd Academaidd.

↓

Byddwch yn cael eich hysbysu o'r penderfyniad a'ch hawl i ofyn am adolygiad o'r penderfyniad.